Llywodraeth Cymru
Welsh Government




# Llyfryn Cyllid a Chefnogaeth

Gyrfa Cymru Careers Wales

Undeb Ewropeaidd European Union
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop European Social Fund



## Cynnwys


1 Wyddech chi fod cyllid gwahanol ar gael yn seiliedig ar eich amgylchiadau personol?
2 Sut alla i ennill cymwysterau ar ôl yr ysgol pan mae dysgu mor ddrud?
5 Sut alla i fynd i addysg uwch pan mae astudio mor ddrud?
10 Sut alla i gael swydd pan nad oes gen i lawer o brofiad, os o gwbl?
14 Sut alla i ddod o hyd i swydd newydd os ydw i'n ddi-waith neu os dilëwyd fy swydd?
16 Sut alla i ddysgu mwy o sgiliau fel y gallaf edrych ymlaen at yrfa dda?
18 Sut alla i fod yn fos arnaf fi fy hun?
19 Help ychwanegol: Grantiau, bwrsariaethau, budd-daliadau, cyngor ac arweiniad
24 Manteision dysgu yn y Gymraeg
25 Rhestr Gyfeirio Lleoliadau'r Rhaglen
26 Ewch amdani!


Llyfryn Cyllid a Chefnogaeth 2018/19 • ISBN Argraffu 978-1-78937-618-0

© Hawlfraint y Goron 2018

# Wyddech chi fod cyllid gwahanol ar gael yn seiliedig ar eich amgylchiadau personol?

## Manteision dysgu

Efallai'ch bod am ddatblygu sgiliau newydd, dychwelyd i'r gwaith ar ôl colli swydd neu fod yn ddi-waith, newid gyrfa neu gael dyrchafiad. Beth bynnag rydych am ei gyflawni, mae llawer o fannau lle y gallwch ddod o hyd i gyllid a chefnogaeth, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, eich cyngor lleol neu ddarparwr hyfforddiant arbenigol.

Mae eich cymhwysedd i gael cefnogaeth neu gyllid a'r swm mae gennych hawl iddo'n dibynnu ar eich sefyllfa chi. Mae oedran, incwm personol ac amgylchiadau teuluol, lle rydych yn bwriadu astudio ac a ydych yn dysgu'n rhan-amser neu'n llawn amser i gyd yn berthnasol.

Gallech hefyd gael help gan gyflogwr, undeb llafur, sefydliad elusennol neu ymddiriedolaeth. Mae nawdd ac ysgoloriaethau hefyd yn bosibl os dangoswch ddawn wirioneddol yn eich maes – wedi'r cyfan, does neb am weld talent yn cael ei rhwystro gan broblemau ariannol. Os byddwch chi'n dewis cwrs rhan-amser, gallech fod yn gymwys i gael budd-dal tai neu esemptiad neu ostyngiad yn eich treth gyngor. Ond, os ydych eisoes yn hawlio budd-dal, bydd angen i chi gadarnhau a fydd unrhyw gyllid a gewch i'ch cynorthwyo i ddysgu yn effeithio arno.

Wedi drysu? Edrychwch ar ein hadnodd **Llwybrau Cyflogaeth** ar-lein. Rydym wedi'i greu er mwyn gwneud pethau'n haws i'w deall. Atebwch ychydig o gwestiynau am bwy ydych chi a beth rydych ei eisiau a byddwn yn rhoi gwybod i chi ar unwaith am y rhaglenni cymorth sydd fwyaf addas i chi, ynghyd â'r cyllid y gallech fod yn gymwys i'w gael a sut i wneud cais amdano.

Am fwy o wybodaeth, ewch i **www.gyrfacymru.com/porthsgiliau** neu ffoniwch Gyrfa Cymru ar **0800 028 4844**.



# Sut alla i ennill cymwysterau ar ôl ysgol pan mae dysgu mor ddrud?

## Addysg Bellach



### Cymorth gyda ffioedd dysgu

Gellir codi ffioedd dysgu arnoch os ydych chi'n astudio'n llawn amser neu'n rhan-amser. Ond bydd y rhan fwyaf o golegau'n rhoi addysg am ddim i chi neu'n codi ffi ostyngol os ydych chi'n derbyn budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd, ar incwm isel neu os oes gennych chi anabledd.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'ch coleg lleol neu ewch i **www.colegaucymru.ac.uk**

### Grant Dysgu Llywodraeth Cymru Addysg Bellach (19+ oed)

Mae'r grant hwn yn talu am gost llyfrau, cyfarpar a theithio. Mae'n rhaid i chi fod yn astudio ar gwrs sy'n arwain at gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol. Mae'r swm a gewch chi'n dibynnu ar a ydych chi'n astudio'n llawn amser neu'n rhan-amser, ac ar incwm eich aelwyd.

- Llawn amser, gallech gael hyd at £1,500;
- Rhan-amser (o leiaf 275 awr y flwyddyn), gallech gael hyd at £750.

Er mwyn cael cymorth ariannol, rhaid eich bod chi neu'ch teulu yn ennill £18,370 neu lai.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'ch coleg lleol neu ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/gdllcab**

### Lwfans Cynhaliaeth Addysg

Mae'r Lwfans hwn yn rhoi arian i bobl ifanc 16-18 oed sy'n byw ac yn astudio'n llawn amser yng Nghymru, sydd am barhau â'u haddysg ym mlwyddyn 12 neu'n ystyried addysg bellach ar ôl gadael yr ysgol. Mae'ch cymhwysedd yn dibynnu ar incwm eich aelwyd.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'ch ysgol neu goleg lleol neu ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/lca**

### Colegau Addysg Bellach

Os nad ydych chi am aros yn yr ysgol ar gyfer y Chweched Dosbarth, ond yn awyddus i barhau i ddysgu sgil neu bwnc newydd ar ôl gadael yr ysgol, edrychwch ar y dewis o gyrsiau sydd ar gael mewn Colegau Addysg Bellach ledled Cymru. Mae llawer ohonynt yn cynnig cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, felly cysylltwch â'ch coleg lleol i gael gwybod mwy. O gyrsiau lefel mynediad i brentisiaethau – mae cwrs sy'n addas i bawb ar bob math o bynciau. Dylai pob darparwr gynnig cyrsiau dwyieithog, ond weithiau bydd angen i chi ofyn amdanynt.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.colegaucymru.ac.uk**





# Sut alla i fynd i addysg uwch pan mae astudio mor ddrud?

## Addysg Uwch

### Benthyciadau a grantiau ffioedd dysgu (myfyrwyr cyfredol)

Gallwch wneud cais am fenthyciad ffioedd dysgu o hyd at £4,200 os byddwch yn astudio yng Nghymru neu hyd at £4,450 os byddwch yn astudio yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Fydd dim rhaid i chi ddechrau ei ad-dalu nes eich bod yn ennill mwy nag £25,000 y flwyddyn – neu £18,333 y flwyddyn os i chi ddechrau eich cwrs cyn 1af o Fedi 2012.

Os byddwch yn astudio yng Nghymru, efallai y gallwch hawlio grant o hyd at £4,800 hefyd er mwyn talu balans eich ffioedd dysgu, hyd at uchafswm o £9,000. Os byddwch yn astudio yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon mae'n bosibl y gallwch gael grant o hyd at £4,954 er mwyn talu balans eich ffioedd dysgu, hyd at uchafswm o £9,250 y flwyddyn am gwrs israddedig llawn amser. Ni fydd yn rhaid i chi ad-dalu'r grant hwn, hynny yw os byddwch yn mynd i sefydliad a ariennir yn gyhoeddus. Mewn sefydliad preifat, mae'n bosibl y gallwch gael benthyciad ffi o hyd at £6,165 os yw'ch cwrs wedi'i ddynodi'n benodol.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch Cyllid Myfyrwyr Cymru ar **0300 200 4050** neu ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

### Cymorth ffioedd dysgu (ar gyfer myfyrwyr newydd sy'n cychwyn cyrsiau yn 2018-19)

Gall myfyrwyr newydd llawn amser a rhan-amser wneud cais am fenthyciad i dalu ffioedd dysgu. Y prifysgolion neu'r colegau sy'n pennu swm ffioedd dysgu. Yma yng Nghymru, mae ffioedd dysgu wedi'u capio ar £9,000 y flwyddyn, ond mewn rhannau eraill o'r DU gallech orfod talu hyd at £9,250 y flwyddyn am gwrs israddedig llawn amser.

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn darparu benthyciad i'ch helpu i dalu ffioedd dysgu, i'w ad-dalu unwaith y byddwch chi'n dechrau ennill dros £25,000. Nid yw benthyciadau ar gyfer ffioedd dysgu yn dibynnu ar brawf modd.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** neu ffoniwch **0300 200 4050**.

### Benthyciadau cynhaliaeth (myfyrwyr cyfredol)

Bydd y rhain yn helpu gyda'ch costau byw wrth astudio. Rhaid i chi fod dan 60 oed ac yn gwneud cwrs llawn amser neu gwrs rhyngosod, gan gynnwys hyfforddiant cychwynnol athrawon. Y prif gyfraddau blynyddol yw:

- Byw gartref – £5,529;
- Byw oddi cartref – £7,143;
- Byw oddi cartref ac yn astudio yn Llundain – £10,007;
- Byw dramor – £8,517.

Mae'r rheolau ar ad-dalu yr un fath â rheolau ar gyfer benthyciadau ffioedd dysgu.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch Cyllid Myfyrwyr Cymru ar **0300 200 4050** neu ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

### Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (myfyrwyr cyfredol)

Mae'r grant hwn o hyd at £5,161 y flwyddyn yn dibynnu ar eich incwm chi ac incwm eich teulu. Gallech fod â hawl i'r swm llawn os ydych chi'n ennill llai na £18,370.

Os ydych chi'n ennill rhwng £18,370 a £50,020, gallech gael rhan o'r grant. Chewch chi ddim ceiniog os yw'ch incwm yn fwy na £50,020. Fel arfer, telir Grant Dysgu Llywodraeth Cymru gyda'ch benthyciad i fyfyrwyr, ond does dim rhaid i chi ei ad-dalu.

Parhau drosodd

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch Cyllid Myfyrwyr Cymru ar **0300 200 4050** neu ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

### Costau byw – benthyciad a grant (ar gyfer myfyrwyr newydd sy'n dechrau cyrsiau yn 2018-19)

Yr isafswm grant y gallech ei dderbyn yw £1,000 a does dim angen ei ad-dalu. Os ydych chi'n astudio'n llawn amser fel myfyriwr israddedig, trwy gymysgedd o grantiau a budd-daliadau, efallai'ch bod yn gymwys i gael hyd at £11,250 y flwyddyn tuag at eich costau byw os ydych chi'n byw oddi cartref ac yn astudio yn Llundain, a £9,000 y flwyddyn yng ngweddill y DU. Bydd myfyrwyr israddedig rhan-amser yn derbyn cymorth tebyg, ar sail pro rata, yn seiliedig ar ba mor ddwys yw'r cwrs.


Bydd grantiau'n destun prawf modd er mwyn helpu'r rhai sydd eu hangen fwyaf. Os ydych chi o aelwyd incwm is, byddwch chi'n derbyn y grant uchaf. Gallech gael benthyciad cynhaliaeth ar ben yr hyn gewch chi. Bydd uchafswm y benthyciad yn dibynnu ar faint o grant rydych chi'n ei dderbyn. Hefyd, gallech gael hyd at £1,500 tuag at leihau'ch benthyciad cynhaliaeth pan fyddwch chi'n gwneud yr ad-daliad cyntaf dan gynllun canslo rhannol Llywodraeth Cymru. Yr un yw'r rheolau ar gyfer ad-dalu benthyciadau cynhaliaeth â rhai benthyciadau ffioedd dysgu.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.llyw.cymru/arianmyfyrwyr** neu **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** neu ffoniwch **0300 200 4050**.


### Ysgoloriaethau a bwrsariaethau

Efallai bod ffynonellau cymorth ariannol eraill ar gael gan eich prifysgol neu eich coleg megis bwrsariaeth neu ysgoloriaeth. Gall y rhain ddibynnu ar incwm eich aelwyd ac amrywio mewn prifysgolion a cholegau gwahanol ac ar gyfer cyrsiau gwahanol. Bydd manylion yr ysgoloriaethau a'r bwrsariaethau a gynigir gan brifysgolion a cholegau ar eu gwefannau ac mae'n bosibl y gallant gynnig help ychwanegol os byddwch chi mewn trafferthion ariannol.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'ch prifysgol neu goleg i weld pa gymorth ariannol ychwanegol sydd ar gael.







### Grant Oedolyn Dibynnol

Gallwch hawlio hyd at £2,732 os oes gennych chi ŵr, gwraig neu bartner sifil neu oedolyn arall sy'n aelod o'ch teulu sy'n dibynnu arnoch yn ariannol. Bydd yr union swm yn dibynnu ar eich incwm cyffredinol. Bydd israddedigion rhan-amser yn derbyn cefnogaeth ar sail pro-rata yn seiliedig ar ddwysedd y cwrs.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch Cyllid Myfyrwyr Cymru ar **0300 200 4050** neu ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

### Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (DSA)

Nod y lwfansau hyn yw helpu gyda chostau ychwanegol sydd gennych wrth ddilyn eich cwrs ac o ganlyniad uniongyrchol i'ch anabledd, eich cyflwr iechyd meddwl neu eich anabledd dysgu penodol.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch Cyllid Myfyrwyr Cymru ar **0300 200 4050** (minicom **0300 100 1693**) neu ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

### Benthyciadau ffioedd a grantiau cyrsiau rhan-amser (myfyrwyr newydd yn unig)

Gallwch wneud cais am fenthyciad ffioedd o hyd at £2,625 wrth astudio yng Nghymru. Os ydych chi am astudio dros Glawdd Offa, gallwch wneud cais am fenthyciad ffioedd o hyd at £6,935 (prifysgol a ariennir yn gyhoeddus) neu hyd at £4,625 (sefydliadau a ariennir yn breifat). Gallwch wneud cais am gymysgedd o grant a benthyciad o hyd at £4,987.50 i dalu am gostau byw. Bydd rheolau cymhwysedd yn berthnasol.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch Cyllid Myfyrwyr Cymru ar **0300 200 4050** neu ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

### Benthyciadau ffioedd a grantiau cyrsiau rhan-amser (myfyrwyr sy'n parhau â'u hastudiaethau yn unig)

Gwnewch gais am hyd at £1,025 o grant i'ch helpu gyda'ch ffioedd, a grant o hyd at £1,155 i dalu am gostau llyfrau, teithio ac eitemau eraill sy'n gysylltiedig â'r cwrs. Fel arfer, ni fyddwch yn gymwys os oes gennych radd eisoes.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch Cyllid Myfyrwyr Cymru ar **0300 200 4050** neu ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Parhau drosodd

### Lwfans Dysgu i Rieni

Mae'r lwfans hwn yn talu am gostau sy'n gysylltiedig â'r cwrs o hyd at £1,557 y flwyddyn os oes gennych blant dibynnol. Mae'r swm yn dibynnu ar eich incwm cyffredinol ac ni fydd yn effeithio ar eich budd-dal. Bydd israddedigion rhan-amser yn derbyn cymorth ar sail pro-rata yn seiliedig ar ddwysedd y cwrs.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch Cyllid Myfyrwyr Cymru ar **0300 200 4050** neu ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

### Grant Gofal Plant

Gallwch hawlio am gost gofal plant cofrestredig neu achrededig yn ystod y tymor a gwyliau byr – hyd at £161.50 ar gyfer un plentyn neu hyd at £274.55 yr wythnos ar gyfer dau blentyn neu fwy. Bydd israddedigion rhan-amser yn derbyn cymorth ar sail pro-rata yn seiliedig ar ddwysedd y cwrs.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch Cyllid Myfyrwyr Cymru ar **0300 200 4050** neu ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

### Benthyciad Ôl-raddedig (myfyrwyr cyfredol)

Os ydych ar gwrs Meistr ôl-raddedig llawn amser neu ran-amser (a addysgir neu sy'n seiliedig ar waith ymchwil), gallwch wneud cais am Fenthyciad Ôl-raddedig o hyd at £10,280 fel cyfraniad tuag at gostau eich cwrs a'ch costau byw.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch Cyllid Myfyrwyr Cymru ar **0300 200 4050** neu ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

### Cymorth i fyfyrwyr ôl-radd a doethuriaeth (ar gyfer myfyrwyr newydd sy'n cychwyn cyrsiau yn 2018-19)

Os ydych chi'n cychwyn ar gwrs Meistr yn 2018-19, gallech wneud cais am fenthyciad ôl-radd ategol o £13,000 lle bynnag fyddwch chi'n astudio yn y DU. Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu arian ychwanegol i brifysgolion y wlad (hyd at £4,000 fesul myfyriwr) tuag at fyfyrwyr ôl-raddedig sy'n dewis astudio yng Nghymru. Mae angen i chi gysylltu â'ch prifysgol ynglŷn â'r arian hwn.

Bydd y rhai sy'n dechrau ar gwrs doethuriaeth yn 2018-19 yn gymwys am gymorth hefyd. Bydd y cynigion yn rhoi cyfle i fyfyrwyr cymwys sy'n byw yng Nghymru gael benthyciad o hyd at £25,000 fel cyfraniad tuag at gostau gydol y cwrs.

O fis Medi 2019, bydd myfyrwyr Meistr ôl-raddedig yn derbyn pecyn cymorth tebyg i israddedigion - cyfuniad o grantiau a benthyciadau fel cyfraniad tuag at gostau, yn hytrach na chymorth wedi'i neilltuo'n benodol ar gyfer ffioedd a chostau cynhaliaeth.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.llyw.cymru/arianmyfyrwyr** neu **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** neu ffoniwch **0300 200 4050**.

### Cyflawni drwy Brofiad Gwaith GO Wales

Mae'r rhaglen hon yn cynnig cymorth arbenigol un i un i fyfyrwyr er mwyn dod o hyd i brofiad gwaith ystyrlon, gyda'r nod o'ch helpu i wella eich sgiliau gwaith a'ch rhagolygon gyrfa.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru drwy e-bostio **atwe@hefcw.ac.uk** neu ewch i **www.gowales.co.uk**

### KESS 2

Mae KESS 2 ar gyfer uwchraddedigion sydd â diddordeb mewn cymhwyster PhD neu Feistr Ymchwil a gynhelir mewn partneriaeth â chwmni.

Dim ond mewn ardaloedd penodol mae'r rhaglen hon ar gael; gweler y rhestr gyfeirio ar dudalen 25.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.kess2.ac.uk**

### Academi Deunyddiau a Gweithgynhyrchu (M2A)

Mae'r M2A ar gyfer graddedigion sydd â gradd 2:1 neu uwch mewn Gwyddoniaeth neu Beirianneg. Mae'n cynnig cyllid ar gyfer gradd Meistr blwyddyn o hyd neu radd Doethuriaeth pedair blynedd – wedi'u hariannu ar y cyd gan M2A a rhai o gwmnïau mwyaf arloesol Cymru.

Os cewch eich derbyn, byddwch yn gweithio gydag un o'r busnesau hyn ar brosiect ymchwil newydd sbon y cytunwyd arno ymlaen llaw sy'n seiliedig ar gynhyrchion, prosesau neu farchnadoedd y cwmni.

Wrth wneud y prosiect ymchwil, byddwch yn derbyn tâl blynyddol o hyd at £20,000.

Dim ond mewn rhai ardaloedd y mae'r rhaglen hon ar gael; gweler y rhestr gyfeirio ar dudalen 25.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.materials-academy.co.uk**

### METal 2

Prosiect dysgu seiliedig ar waith yw METal (Materials and Manufacturing Education, Training and Learning) sy'n cael ei arwain gan Brifysgol Abertawe a'i ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, trwy Lywodraeth Cymru. Mae'n cynnig cyrsiau hyfforddi technegol achrededig i fusnesau a diwydiannau Cymru ym maes Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch.

Mae'r cwrs â chymhorthdal yn caniatáu i weithwyr ennill cymwysterau uwch a fydd yn rhoi hwb i unigolion a'r busnes dan sylw.

Rhaglen i bobl gyflogedig a hunangyflogedig yn unig yw hon.

Dim ond mewn ardaloedd penodol mae'r rhaglen hon ar gael; gweler y rhestr gyfeirio ar dudalen 25.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.project-metal.co.uk**



# Sut alla i gael swydd pan nad oes gen i lawer o brofiad, os o gwbl?

## Paratoi i weithio

### Hyfforddeiaethau

Mae'r rhain i bobl ifanc yng Nghymru rhwng 16 a 18 oed nad ydynt mewn cyflogaeth na hyfforddiant. Bydd hyfforddeiaeth yn rhoi'r sgiliau angenrheidiol i gael swydd neu fynd ymlaen i wneud rhagor o hyfforddiant. Byddwch yn cael lwfans hyfforddi o rhwng £30 a £50 yr wythnos. Gallech hefyd gael cymorth gyda chostau teithio a gofal plant.

Am ragor o wybodaeth a chyngor, ffoniwch Gyrfa Cymru AM DDIM ar **0800 028 4844** neu ewch i **www.gyrfacymru.com**

### Treialon Gwaith

Mae Treial Gwaith yn rhoi'r cyfle i chi roi cynnig ar swydd a pharhau i gael budd-daliadau. Gall bara am hyd at 30 o ddiwrnodau gwaith, ac efallai y cewch gynnig swydd ar y diwedd. Mae Treialon Gwaith yn wirfoddol, ac ni fydd yn effeithio ar eich budd-daliadau os byddwch yn gorffen yn gynnar neu'n gwrthod swydd a gynigir i chi. Os ydych chi'n hawlio Credyd Cynhwysol, bydd angen i chi drafod gyda'ch hyfforddwr gwaith yn y Ganolfan Waith cyn ymrwymo i unrhyw addysg neu hyfforddiant (rhan-amser neu lawn amser), gan roi gwybodaeth am unrhyw addysg neu hyfforddiant arfaethedig, er enghraifft:

- y math o addysg neu hyfforddiant y byddwch yn ei dderbyn;
- nifer yr oriau y bwriedir eu gwneud;
- hyd y cwrs.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch eich Canolfan Byd Gwaith leol ar **0800 055 6688**. Gallwch hefyd ofyn i'ch Hyfforddwr Gwaith yn y Ganolfan Waith esbonio sut gall cyfleoedd profiad gwaith eich helpu chi.

### Workways+

Mae Workways+ yn darparu cymorth mentora i oedolion di-waith yn siroedd Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion. Mae cymorth unigol yn cynnwys hyfforddiant, gwirfoddoli a phrofiad gwaith â thâl gan sicrhau bod gennych y sgiliau, y cymwysterau a'r profiad angenrheidiol i gael swydd. Dim ond mewn rhai ardaloedd y mae'r rhaglen ar gael; gweler y rhestr gyfeirio ar dudalen 25.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.workways.wales**

### Y Gwasanaeth i Mewn i Waith

Mae'r rhaglen hon i bobl ddi-waith sy'n byw yng Nghaerdydd ac sy'n chwilio am waith neu'n ceisio datblygu eu sgiliau er mwyn gwella eu siawns o gael gwaith. Mae'n rhoi help a chyngor am ddim i chi ar ddysgu sgiliau newydd a gwella eich rhagolygon gyrfa. Dim ond mewn ardaloedd penodol mae'r rhaglen hon ar gael; gweler y rhestr gyfeirio ar dudalen 25.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch y Gwasanaeth i Mewn i Waith ar **029 2087 1071** neu e-bostiwch **imewniwaith@caerdydd.gov.uk**

### Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd

Mae'r rhaglen hon i bobl ddi-waith, gan gynnwys troseddwyr yn y gymuned. Drwy ymuno, gallwch gael gafael ar leoliadau profiad gwaith o ansawdd da, ynghyd â hyfforddiant sgiliau hanfodol a chymorth i baratoi ar gyfer gwaith.

Am ragor o wybodaeth a chyngor, ffoniwch Gyrfa Cymru AM DDIM ar **0800 028 4844** neu ewch i **www.gyrfacymru.com/porthsgiliau**

### Cynhwysiant Gweithredol

Ydych chi'n ddi-waith? Drwy brosiectau a gyllidir gan Cynhwysiant Gweithredol ledled Cymru, gallech ennill sgiliau a chymwysterau newydd i'ch helpu i ddychwelyd i'r gwaith. Bydd cyfle hefyd i fynd ar leoliadau gwaith â thâl o rhwng 16 a 26 o wythnosau hyd at 35 awr yr wythnos ar y Cyflog Byw Cenedlaethol (isafswm cyflog). Gyda meini prawf cymhwysedd.

Am ragor o wybodaeth a chyngor, e-bostiwch **activeinclusion@wcva.org.uk**

### Pontydd i Waith

Mae'r rhaglen hon yn rhoi cymorth un i un i oedolion di-waith. Gyda darpariaeth wedi'i theilwra, nod y rhaglen yw eich helpu i feithrin hyder, ennill sgiliau newydd, paratoi ar gyfer gwaith, cael profiad gwaith gwerthfawr a chael cyflogaeth barhaus.

Dim ond mewn ardaloedd penodol mae'r rhaglen hon ar gael; gweler y rhestr gyfeirio ar dudalen 25.

Am ragor o wybodaeth a chyngor, ffoniwch **01633 647743**.

### Cymunedau am Waith

Gall Cymunedau am Waith eich cefnogi os ydych yn 16-24 oed ac nad ydych mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, neu os ydych dros 25 oed ac rydych wedi bod yn ddi-waith ers 12 mis neu fwy. Mae'r rhaglen yn cynnig gwasanaeth mentora un i un a chymorth i'ch helpu i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant neu waith. Yn dibynnu ar eich amgylchiadau, gallwch hefyd gael help gyda chostau teithio, gofal plant a dillad neu offer addas i'ch helpu i ddechrau gweithio.

Am ragor o wybodaeth, e-bostiwch **C4W@llyw.cymru**

### PaCE

Mae PaCE yn helpu rhieni/gwarcheidwaid nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a ddim yn byw mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf i gamu ymlaen yn nes at waith neu i mewn i fyd gwaith. Nod y rhaglen yw canfod ac ariannu atebion i rwystrau gofal plant tra bo rhieni/gwarcheidwaid yn manteisio ar gyfleoedd hyfforddi neu gyfleoedd gwaith eraill. Mae'n gwbl wirfoddol ac ar gael ledled Cymru a bydd rhieni/gwarcheidwaid yn derbyn cymorth unigol gan eu Cynghorydd Cyflogaeth i Rieni mewn lleoliadau addas i deuluoedd. Am ragor o wybodaeth, e-bostiwch **PaCE@llyw.cymru**

### Ysbrydoli i Gyflawni

Mae Ysbrydoli i Gyflawni yn rhoi cymorth i bobl ifanc 11-25 oed sydd mewn perygl o fod yn NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant). Cewch gynnig rhaglen gymorth wedi'i theilwra i'ch helpu i oresgyn rhwystrau er mwyn sicrhau y byddwch yn parhau â'ch addysg neu hyfforddiant. Dim ond mewn ardaloedd penodol mae'r rhaglen hon ar gael; gweler y rhestr gyfeirio ar dudalen 25.

Am ragor o wybodaeth, os ydych chi'n byw yn ardaloedd Casnewydd, Caerdydd, Sir Fynwy neu Fro Morgannwg, e-bostiwch inspire@newport.gov.uk neu ewch i **www.newport.gov.uk/inspiretoachieve**

Os ydych chi'n byw yn ardaloedd Torfaen, Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr neu Gaerffili, e-bostiwch **inspire2achieve@blaenau-gwent.gov.uk**

### Ysbrydoli i Weithio

Nod y rhaglen hon yw darparu cymorth i bobl ifanc 16-25 oed sydd mewn perygl o fod heb addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Trwy gofrestru, cewch gymorth un i un i'ch helpu i oresgyn unrhyw rwystrau ynghyd â hyfforddiant penodol i'ch anghenion a phrofiad gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli.

Dim ond mewn ardaloedd penodol mae'r rhaglen hon ar gael; gweler y rhestr gyfeirio ar dudalen 25.

Am ragor o wybodaeth, os ydych chi'n byw yn ardaloedd Casnewydd, Caerdydd, Sir Fynwy neu Fro Morgannwg, e-bostiwch **inspire@newport.gov.uk**

Os ydych chi'n byw yn ardaloedd Torfaen, Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr neu Gaerffili, e-bostiwch **inspire2work@blaenau-gwent.gov.uk**

Parhau drosodd

### Gwasanaeth Mentora Cymheiriaid Di-waith

Mae'r gwasanaeth ar gael ledled Cymru ac ar gyfer pobl sy'n gwella ar ôl camddefnyddio sylweddau (yn cynnwys alcohol) a/neu broblemau iechyd meddwl. Gall gefnogi pobl sy'n gwella sy'n 16 oed a hŷn ac sy'n ddi-waith yn yr hirdymor (12+ mis) neu nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Mae'n cynnig cymorth un i un gan rywun â phrofiad personol o wella, ynghyd â gweithgareddau amrywiol. Os ydych yn chwilio am anogaeth a chydymdeimlad, cefnogaeth heb farnu i feithrin hyder, cael gwaith, addysg neu hyfforddiant, e-bostiwch **outofworkservice-peer@llyw.cymru** neu ffoniwch **03000 25 5000**.

### Sicrhau Newid trwy Gyflogaeth Sova (ACE)

Rhaglen i bobl ddu a lleiafrifoedd ethnig, yn ogystal â mudwyr, sydd wedi bod yn ddi-waith am dymor hir (12+ mis) neu'n economaidd anweithgar a thros 25 oed. Mae'n darparu mynediad i hyfforddiant a chymorth i ddychwelyd i'r gwaith ac aros yno. Drwy gofrestru, byddwch yn cael cymorth unigol gan fentor, a fydd yn gweithio ochr yn ochr â chi er mwyn eich helpu i gyflawni eich nodau.

Am ragor o wybodaeth a chyngor, e-bostiwch **ace@sova.org.uk** neu ffoniwch **029 2022 1936** am fanylion eich Swyddog Achos lleol.

### OPUS

Mae'r rhaglen hon ar gyfer pobl economaidd anweithgar sydd dros 25 oed mewn rhai ardaloedd yn y Gogledd. Ei nod yw'ch helpu i ddychwelyd i'r gwaith drwy gyfleoedd hyfforddiant sgiliau, profiad gwaith a gwirfoddoli.

Dim ond mewn ardaloedd penodol mae'r rhaglen hon ar gael; gweler y rhestr gyfeirio ar dudalen 25.

Am ragor o wybodaeth a chyngor, e-bostiwch **opus.regional@conwy.gov.uk** neu ffoniwch **01492 576362** neu **07826 876969**.

### Dysgu Cymunedol

Os ydych am ddychwelyd i ddysgu, ond ddim yn siwr lle i gychwyn arni, gallai cwrs rhagflas mewn canolfan i oedolion neu ganolfan gymunedol fod yn addas i chi. Mae'r cyrsiau'n cynnwys popeth o ddysgu ieithoedd a phobi teisennau i wella eich sgiliau darllen a mathemateg. Mae cyrsiau'n dechrau gydol y flwyddyn a'r amseroedd yn hyblyg - gyda rhai yn ystod y dydd ac eraill min nos. Mae gweithdai undydd neu benwythnos ar gael hefyd.

Am ragor o wybodaeth a chyngor, ffoniwch Gyrfa Cymru AM DDIM ar **0800 028 4844** neu cysylltwch â'ch Awdurdod Lleol.

### Trac 11-24

Mae TRAC 11-24 yn rhoi cymorth i bobl ifanc 11-24 oed y Gogledd sydd mewn perygl o fod heb addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae'n darparu cyrsiau galwedigaethol wedi'u targedu a lleoliadau gwaith estynedig yn ogystal â chwnsela, hyfforddiant a gwasanaethau mentora.

Dim ond mewn ardaloedd penodol mae'r rhaglen hon ar gael; gweler y rhestr gyfeirio ar dudalen 25.

Am ragor o wybodaeth a chyngor, e-bostiwch **regionalTRAC@denbighshire.gov.uk** neu ffoniwch **0800 028 4844**.

### Journey 2 Work

Nod y rhaglen hon yw helpu oedolion sydd wedi bod yn ddi-waith yn y tymor hir (12 mis a mwy) ac yn economaidd anweithgar, sy'n byw y tu allan i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ac sydd angen rhagor o gymorth ac arweiniad i chwilio am waith neu fynd ymlaen i gael hyfforddiant neu addysg uwch.

Mae'n cynnig cymorth a mentora un i un i'ch helpu i gael hyfforddiant neu gyfleoedd gwaith. Gan ddibynnu ar eich amgylchiadau, efallai y byddwch hefyd yn gymwys i gael cymorth gyda chostau teithio, gofal plant a dillad neu offer gwaith addas i'ch helpu i ddechrau gweithio.

Dim ond mewn ardaloedd penodol y mae'r rhaglen hon ar gael; gweler y rhestr gyfeirio ar dudalen 25.

Am ragor o wybodaeth, e-bostiwch **journey2work@newport.gov.uk**

### ADTRAC

Datblygwyd ADTRAC er mwyn ysbrydoli pobl ifanc ddi-waith 16-24 oed sy'n byw yn y Gogledd i fynd i waith, addysg neu hyfforddiant.

Darperir cymorth gan dimau lleol ac mae wedi'i deilwra'n arbennig i'ch anghenion chi. Mae'r rhaglen yn cynnig:

- cymorth dwys un i un;
- cynlluniau gweithredu personol
- cymorth i helpu i fagu hyder;
- cymorth i oresgyn rhwystrau i waith;
- cymorth llesiant ac iechyd meddwl;
- mynediad i hyfforddiant.

Dim ond mewn ardaloedd penodol mae'r rhaglen ar gael; gweler y rhestr gyfeirio ar dudalen 25.

Am ragor o wybodaeth a chyngor, e-bostiwch **adtrac@gllm.ac.uk** neu ewch i **www.gllm.ac.uk/adtrac**

### Cam Nesa

Mae Cam Nesa yn helpu pobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) i fod yn barod am waith. Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i roi pob cymorth sydd ei angen arnoch i oresgyn pethau sy'n eich rhwystro rhag cael gwaith. Rhoddir cymorth fesul pedwar cam, yn dibynnu ar eich sefyllfa.


Gall cymryd rhan yn rhaglen Cam Nesa eich helpu:

- i fagu hyder a hunan-barch
- i ennill sgiliau a chymwysterau newydd;
- i fod yn barod i weithio;
- i feithrin sgiliau entrepreneuraidd.

Dim ond mewn ardaloedd penodol mae'r rhaglen ar gael; gweler y rhestr gyfeirio ar dudalen 25.

Am ragor o wybodaeth a chyngor, e-bostiwch **cam.nesa.regional.team @pembrokshire.gov.uk**





# Sut alla i ddod o hyd i swydd newydd os ydw i'n ddi-waith neu os dilëwyd fy swydd?

## Dychwelyd i'r gwaith

### ReAct

Mae ReAct yn rhaglen i bobl sydd dan rybudd dileu swydd ffurfiol neu sydd wedi mynd yn ddi-waith yn ystod y tri mis diwethaf oherwydd dileu swydd – ac nad ydynt wedi bod mewn cyflogaeth barhaus am chwe wythnos neu fwy ers hynny. Gan ddibynnu ar eich amgylchiadau, gall ReAct dalu tuag at gost eich hyfforddiant galwedigaethol a helpu gyda chostau teithio, llety a gofal plant. Os oes gennych anghenion arbennig, mae'n bosibl y gallwch gael help gyda'ch cyfarpar hyfforddiant angenrheidiol.

Am ragor o wybodaeth a chyngor, ffoniwch Gyrfa Cymru AM DDIM ar **0800 028 4844** neu ewch i **www.gyrfacymru.com/porthsgiliau**

### Mynediad

Mae Mynediad yn darparu grantiau hyfforddiant galwedigaethol i'ch helpu i ddiweddaru a gloywi eich sgiliau a gwella'ch cyfleoedd gwaith. Gallech dderbyn:

- grant hyfforddiant galwedigaethol gwerth hyd at £1,500 i'ch helpu i ddiweddaru'ch sgiliau er mwyn dychwelyd i'r gwaith;
- hyd at £200 o gymorth ychwanegol i'ch helpu i ddileu rhwystrau i hyfforddiant galwedigaethol fel gofal plant neu gostau teithio.

I fod yn gymwys, rhaid i chi fod:

- yn byw yng nghymoedd y De;
- yn 18 oed a throsodd (a ddim yn gymwys am unrhyw rhaglen arall, gan gynnwys rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop);
- yn ddi-waith, ac wedi cofrestru gyda'r Ganolfan Byd Gwaith;
- heb fawr o brofiad gwaith cyfredol, perthnasol a throsglwyddadwy.

Dim ond mewn ardaloedd penodol mae'r rhaglen hon ar gael; gweler y rhestr gyfeirio ar dudalen 25.

Am ragor o wybodaeth a chyngor, ffoniwch Gyrfa Cymru AM DDIM ar **0800 028 4844** neu ewch i **www.gyrfacymru.com/porthsgiliau**

### Grant Mynediad at Waith

Mae'r Grant Mynediad at Waith yn helpu i dalu am gymorth ymarferol os oes gennych anabledd, cyflwr iechyd neu iechyd meddwl. Cewch gynnig cymorth ar sail eich anghenion. Gall Grant Mynediad at Waith dalu am:

- offer arbennig, addasiadau neu wasanaethau gweithiwr cymorth i'ch helpu chi i wneud pethau fel ateb y ffôn neu fynd i gyfarfodydd;
- help i fynd a dod o'r gwaith.

Mae meini prawf cymhwysedd yn berthnasol. Efallai na fyddwch chi'n cael grant os ydych eisoes yn cael budd-daliadau penodol.

Does dim rhaid ad-dalu'r arian ac ni fydd yn effeithio ar eich budd-daliadau eraill.

Am ragor o wybodaeth, e-bostiwch **atwosu.london@jobcentreplus.gsi.gov.uk** neu ffoniwch **0345 268 8489**.

### Twf Swyddi Cymru

Mae'r rhaglen hon yn cynnig chwe mis o brofiad mewn swydd â thâl yn ennill yr isafswm cyflog cenedlaethol neu uwch, gyda'r cyfle i gael swydd barhaol neu brentisiaeth ar y diwedd. Mae cyfleoedd gwaith ar gael ym mhob sector yng Nghymru. Gallech fod yn gymwys os ydych rhwng 16 a 24 oed, yn ddi-waith, ac yn chwilio am swydd.

Am ragor o wybodaeth a chyngor, ffoniwch Gyrfa Cymru AM DDIM ar **0800 028 4844** neu ewch i **www.facebook.com/ jobsgrowthwales** neu **www.gyrfacymru.com**

### The Work and Health Programme

Mae'r rhaglen hon yn eich helpu i ddod o hyd i waith, a'i gadw, os ydych chi'n ddi-waith. Mae'n wirfoddol - oni bai eich bod allan o waith ac yn hawlio budd-daliadau di-waith ers 24 mis. Fel rhan o'r rhaglen, gallech gael cymorth i wneud y canlynol:

- nodi'ch anghenion cyflogaeth;
- paru'ch sgiliau â'r gwaith sydd ar gael;
- eich rhoi mewn cysylltiad â chyflogwyr;
- dod o hyd i waith hirdymor;
- cael hyfforddiant i'ch helpu i chwilio am waith;
- rheoli problemau iechyd er mwyn lleihau eu heffaith ar waith.

Mae meini prawf cymhwysedd yn berthnasol.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch eich Canolfan Byd Gwaith leol ar **0800 012 1888** neu ewch i **www.gov.uk/work-health-programme**

# Sut alla i ddysgu mwy o sgiliau fel y gallaf edrych ymlaen at yrfa dda?

## Dysgu yn y gweithle

### Prentisiaethau

Mae prentisiaethau i bobl 16 oed a throsodd sydd am ddysgu wrth weithio. Maent yn rhoi hyfforddiant am ddim i chi ac, yn well byth, byddwch yn ennill wrth i chi ddysgu sgiliau hanfodol.

Gallwch ddechrau'r Rhaglen Brentisiaeth ar y lefel sydd fwyaf addas i chi: Prentisiaethau Sylfaen, Prentisiaethau a Phrentisiaethau Uwch. Gan ddibynnu ar y lefel, maent yn cymryd rhwng blwyddyn a phedair blynedd i'w cwblhau. Bydd prentisiaid yn gweithio tuag at gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol sy'n gyfwerth â chymwysterau NVQ lefel 2 i lefel 7.

Er mwyn chwilio am brentisiaethau, ewch i'r Gwasanaeth Paru Prentisiaethau ar gyrfacymru.com. Y gwasanaeth ar-lein am ddim hwn fydd yn eich paru â swydd. Gallwch chwilio drwy gyfleoedd prentisiaeth ledled Cymru mewn un lle, wedi'u hidlo yn ôl diwydiant a lleoliad. Mae'n hawdd i chi baru eich sgiliau a'ch dyheadau â'r cyfleoedd iawn.

Am ragor o wybodaeth a chyngor, ffoniwch Gyrfa Cymru AM DDIM ar **0800 028 4844** neu ewch i **www.gyrfacymru.com**

### Cenedl Hyblyg 2

Mae Cenedl Hyblyg 2 yn ddelfrydol i fenywod sydd am gamu ymlaen i fod yn arweinwyr tîm neu rheolwyr. Mae'r rhaglen gymorth gynhwysfawr hon yn helpu menywod i ddatblygu'r sgiliau a magu'r hyder i gamu ymlaen yn llwyddiannus yn y gweithle. Mae cyfranogwyr yn ennill cymhwyster achredig y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth, tra'n llunio cynllun gweithredu i gefnogi datblygiad gyrfa.

Trwy gydol y rhaglen byddwch yn derbyn cyngor, cymorth ac arweiniad unigol gan dîm ymroddedig a phrofiadol.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch Chwarae Teg ar **0300 365 0445** neu ewch i **www.agilenation2.org.uk**

### Cymraeg i Oedolion

Mae cyrsiau Cymraeg i Oedolion ar gael ledled y wlad er mwyn datblygu sgiliau iaith Gymraeg dechreuwyr, dysgwyr a siaradwyr ar bob lefel o sgiliau a hyder. Efallai y bydd cymorth ar gael fel bo'r angen er mwyn helpu dysgwyr Cymraeg i allu parhau i ddysgu pan fydd rhwystrau ariannol yn codi. Trafodwch eich anghenion â darparwr Cymraeg i Oedolion.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.dysgucymraeg.cymru**

### Sgiliau ar gyfer Cyflogwyr a Gweithwyr (SEE)

Mae'r rhaglen hon yn rhoi cymorth i unigolion sy'n gweithio i gwmnïau yn y Gogledd. Ei nod yw eich helpu i ddatblygu eich sgiliau drwy gymwysterau cysylltiedig â gwaith hyd at Lefel 7.

Dim ond mewn ardaloedd penodol mae'r rhaglen hon ar gael; gweler y rhestr gyfeirio ar dudalen 25.

Am ragor o wybodaeth, e-bostiwch **esfenquiries@cambria.ac.uk**

### Sgiliau ar gyfer Diwydiant

Mae'r rhaglen hon yn darparu hyfforddiant perthnasol a chymorth cynllunio'r gweithlu ledled y De-orllewin. Bydd yn helpu unigolion cyflogedig i ennill cymwysterau cydnabyddedig o lefelau 1-7. Bydd yn helpu i gaffael sgiliau o fewn busnesau lleol ac yn darparu cyfle i gyflogwyr ddatblygu'r arbenigedd a'r wybodaeth sy'n bodoli yn y sefydliad.

Dim ond mewn ardaloedd penodol mae'r rhaglen hon ar gael; gweler y rhestr gyfeirio ar dudalen 25.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â thîm Sgiliau ar gyfer Diwydiant drwy e-bostio **SFI@gowercollegeswansea.ac.uk**

neu ffoniwch **01792 284209**.

### Twf Busnesau 20Twenty

Mae'r rhaglen lwyddiannus hon wedi ymrwymo i helpu sefydliadau uchelgeisiol i sicrhau twf nodedig a chynaliadwy. Gallwch ragori ar y gweddill drwy ennill sgiliau gwerthfawr er mwyn sicrhau arbedion gwell, cynllunio strategaethau twf a gweithredu targedau ar gyfer ehangu. Mae 20Twenty yn cynnig amrywiaeth lawn o gymwysterau drwy'r Sefydliad Rheolaeth Siartredig hefyd.

Dim ond mewn ardaloedd penodol mae'r rhaglen hon ar gael; gweler y rhestr gyfeirio ar dudalen 25.

Am ragor o wybodaeth ffoniwch **029 2041 6300** neu ewch i **www.20twentybusinessgrowth.com**

### Arweinyddiaeth ION

Mae ION, sy'n estyniad o raglen hynod ddylanwadol LEAD Cymru, yn cynnig pecyn cymorth ymarferol i arweinwyr a rheolwyr busnes cyflogedig er mwyn hwyluso twf busnes gwirioneddol. Cynhelir gwaith ymchwil ar ffyrdd o wella busnesau a bydd y rhain yn cael eu rhoi ar waith drwy gyfres o ddosbarthiadau meistr, gweithdai a gweithgareddau cymorth i fusnesau.

Rhaglen ar gyfer ardaloedd y Gorllewin a'r Cymoedd yw hon; gweler y rhestr gyfeirio ar dudalen 25.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch dîm arweiniol ION ar **01792 606738** neu ewch i **www.ionleadership.co.uk**

### Sgiliau Gwaith i Oedolion

Mae Sgiliau Gwaith i Oedolion yn rhoi cymorth i unigolion a gyflogir ag uchelgeisiau gyrfa diymdroi. Bydd yn rhoi cymorth am ddim, hyfforddiant a'r cyfle i chi ennill cymwysterau newydd.

Dim ond mewn ardaloedd penodol mae'r rhaglen hon ar gael; gweler y rhestr gyfeirio ar dudalen 25.

Am ragor o wybodaeth a chyngor, ffoniwch **01633 647743**.

### Academi Busnes Gogledd Cymru

Mae'r Academi yn darparu hyfforddiant lefel uchel penodol i fusnesau twf trwy gynnig dewis o gymorth gan amrywiaeth o fodiwlau prifysgolion byrion wedi'u hachredu, i'ch helpu i dyfu'ch busnes ymhellach, gwella perfformiad, symud i farchnadoedd newydd ac ennill y blaen ar eich cystadleuwyr.

Nod y prosiect yw eich helpu i feithrin neu wella'ch strategaeth fusnes fel y gallwch deilwra'ch dewis o fodiwlau yn ôl eich anghenion busnes unigol. Cewch gymorth gan fentoriaid busnes profiadol sy'n gallu'ch helpu i gyflawni nodau'ch sefydliad.

Mae'r dull unigryw hwn yn caniatáu i chi gymryd rheolaeth strategol o ddyfodol eich busnes trwy hyfforddiant penodol a chymorth arbenigol.

Dim ond mewn ardaloedd penodol mae'r cymorth hwn ar gael; gweler y rhestr gyfeirio ar dudalen 25.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.nwba.ac.uk/cy/contacts**



# Sut alla i fod yn fos arnaf fi fy hun?

## Dechrau eich busnes eich hun

### Lwfans Menter Newydd

Mae'r rhaglen hon yn rhoi cymorth a chyllid i unigolion sydd am gychwyn busnes. Cewch asesiad arbenigol ar ôl ymuno, ac os byddwch yn llwyddiannus, bydd mentor busnes yn cael ei neilltuo i chi er mwyn eich helpu i ddatblygu a helpu'ch busnes i dyfu.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.gov.uk/moving-from-benefits-to-work/starting-your-own-business** neu ffoniwch eich Canolfan Byd Gwaith leol ar **0800 055 6688**.


### Rhaglen Fenter y Prince's Trust

Mae Rhaglen Fenter y Prince's Trust i bobl rhwng 18 a 30 oed sy'n byw yn y DU ac sy'n ddi-waith, neu'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos, sydd â syniad busnes yr hoffent roi cynnig arno.

Cewch fentor busnes personol a all eich helpu i lunio cynllun busnes, datblygu eich sgiliau a'ch cynghori ar wneud cais am grant i'ch helpu i ddechrau eich busnes.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch y Prince's Trust ar **0800 842842** neu ewch i **www.princes-trust.org.uk**





# Help ychwanegol: Grantiau, bwrsariaethau, budd-daliadau, cyngor ac arweiniad

### Cymorth hyfforddiant athrawon

Bob blwyddyn, cyhoeddir bwrsariaethau hyfforddiant cychwynnol athrawon ôl-raddedig ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2018-19, mae bwrsariaethau o hyd at £20,000 ar gael i fyfyrwyr TAR, yn dibynnu ar y math o radd a'r pwnc a astudir. Hefyd, os ydych chi yng Nghymru, efallai y gallech hawlio cymorth dan drefniadau Cyllid Myfyrwyr, gan gynnwys grant tuag at eich ffioedd dysgu. Os ydych chi'n dilyn cwrs ôl-raddedig uwchradd yn Gymraeg, efallai y byddwch yn gymwys i gael atodiad cymhelliant cyfrwng Cymraeg (WIMS) gwerth £2,000 ar gyfer pob pwnc cymwys. Mae cymhelliant Iaith Athrawon Yfory, gwerth £5,000, yn ategu'r cymorth cyfredol dan WIMS, ac yn cael ei dalu ar ôl cwblhau cwrs TAR ac ymsefydlu'n llwyddiannus mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, neu ar ôl cwblhau cyfnod ymsefydlu yn addysgu'r Gymraeg mewn unrhyw leoliad uwchradd.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.darganfodaddysgu.cymru**

Parhau drosodd

## Bwrsariaethau'r GIG

Mae bwrsariaethau'r GIG ar gael ar gyfer cyrsiau llawn amser neu ran-amser cyn cofrestru mewn amrywiaeth eang o bynciau. Mae'n rhaid i chi gael eich derbyn ar gyfer lle a ariennir gan y GIG ac ymrwymo i weithio yng Nghymru am ddwy flynedd ar ôl graddio. Mae myfyrwyr newydd y GIG yn gymwys i gael benthyciadau a grantiau gan Cyllid Myfyrwyr Cymru.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch Gwasanaethau Dyfarniadau i Fyfyrwyr ar **029 2090 5380**.

## Cymorth cyflogwyr

Eich cyflogwr fydd yn dewis faint o gymorth gewch chi – efallai y gallech roi cynnig ar drafod pecyn cymorth. Os ydych eisoes yn hyfforddi gyda'ch cyflogwr, efallai y bydd yn barod i'ch noddi i ddilyn gradd neu ddiploma. Gall myfyrwyr rhan-amser gael eu talu am yr amser maent yn ei dreulio mewn dosbarthiadau neu ddarlithoedd. Efallai na fydd myfyrwyr llawn amser yn cael cyflog, ond bydd eu cyflogwr yn gwarantu gwaith iddynt yn ystod y gwyliau fel arfer. Mae'n debyg y bydd disgwyl i chi barhau i weithio i'ch cyflogwr am gyfnod ar ôl i chi orffen astudio.

Am ragor o wybodaeth, siaradwch â'ch cyflogwr.

## Undebau llafur

Mae mwy na 1,300 o Gynrychiolwyr Dysgu Undebau mewn gweithleoedd ledled Cymru sy'n gyfrifol am helpu aelodau undebau llafur i gymryd rhan mewn pob math o weithgareddau dysgu. Mae llawer o undebau hefyd yn darparu prosiectau Cronfa Ddysgu Undebau Cymru sy'n cynnig cyfleoedd dysgu, gan gynnwys TGCh, rhifedd, llythrennedd, Cymraeg, ieithoedd tramor a hyfforddiant galwedigaethol.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch TUC Cymru ar **029 2034 7010** neu e-bostiwch **wtuc@tuc.org.uk**

## Grantiau Cymraeg

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i nifer o sefydliadau dan ei rhaglen i hyrwyddo'r Gymraeg. Hefyd, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnig ysgoloriaethau i fyfyrwyr sydd am ddilyn cyrsiau gradd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.colegcymraeg.ac.uk**







Parhau drosodd



## Engage to Change

Rhaglen ar gyfer unigolion 16-25 oed ag anableddau dysgu neu awtistiaeth yw hon. Mae'n eich helpu i ddatblygu eich sgiliau gwaith drwy eich cefnogi chi mewn lleoliad gwaith 6-12 mis – lle byddwch yn ennill cyflog go iawn ac yn cael cyfle i ennill cymwysterau achredadig i'ch helpu i ddatblygu eich gyrfa ymhellach.

Am ragor o wybodaeth a chyngor, ewch i **www.engagetochange.org.uk**, ffoniwch **029 2068 1160** neu e-bostiwch **engagetochange@ldw.org.uk**

## Canolfan Gyswllt Cyn Cyflogi

Mae'r rhaglen hon yn rhoi cyfle i oedolion gael blas iawn ar waith mewn Canolfan Gyswllt, ynghyd â'r cyfle i ddod o hyd i waith yn yr un diwydiant. Drwy ymuno, byddwch yn cael sesiwn sefydlu lawn, ynghyd â hyfforddiant manwl. Yna, ar ôl cwblhau'r rhaglen, cewch sicrwydd o gyfweliad ar gyfer rôl mewn Canolfan Gyswllt.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch Fforwm Canolfan Gyswllt Cymru ar **029 2070 9800**.

## Cymorth yn y Gwaith

Mae'r rhaglen hon yn rhoi cymorth cyfrinachol am ddim i unigolion sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi yn y gwaith, neu sy'n absennol o'r gwaith oherwydd problemau iechyd meddwl, poen clun neu'r cefn, neu gamddefnyddio sylweddau.

Dim ond mewn ardaloedd penodol mae'r rhaglen hon ar gael; gweler y rhestr gyfeirio ar dudalen 25.

Am ragor o wybodaeth os ydych chi'n byw yn ardaloedd Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd neu Ynys Môn, ffoniwch **01745 336442**.

Am ragor o wybodaeth os ydych chi'n byw yn ardaloedd Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot neu Abertawe, ffoniwch **0845 601 7556**.

## Budd-daliadau

Yn dibynnu ar eich amgylchiadau, mae modd i chi hawlio amrywiaeth eang o fudd-daliadau o hyd wrth astudio'n rhan-amser neu hyd yn oed yn llawn amser. Ond mae'n bwysig holi'ch Canolfan Byd Gwaith leol yn iawn er mwyn sicrhau na fydd eich hyfforddiant yn effeithio ar y budd-daliadau rydych chi eisoes yn eu derbyn.

Os ydych chi'n hawlio Credyd Cynhwysol, bydd angen i chi drafod gyda'ch Hyfforddwr Gwaith yn y Ganolfan Waith cyn ymrwymo i unrhyw addysg neu hyfforddiant (rhan-amser neu lawn amser), gan roi gwybodaeth am unrhyw gwrs addysg neu hyfforddiant arfaethedig e.e:

- y math o addysg neu hyfforddiant y byddwch chi'n ei dderbyn;
- sawl awr o'r cwrs rydych chi'n bwriadu eu mynychu;
- faint fydd y cwrs yn para.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch eich Canolfan Byd Gwaith leol ar **0800 055 6688** neu ewch i **www.gov.uk/browse/benefits**

## Gwell Swyddi, Gwell Dyfodol

Mae Gwell Swyddi, Gwell Dyfodol yn darparu cymorth cyflogaeth a gyrfa i bobl gyflogedig a di-waith yn Abertawe. Ei nod yw cynorthwyo pobl i ennill, cadw a chamu ymlaen ym myd gwaith gyda help amrywiaeth o gymorth wedi'i deilwra i anghenion unigolion. Mae'r rhaglen hefyd yn gweithio'n uniongyrchol gyda chyflogwyr i baru unigolion i gyfleoedd gwaith lleol a llwybrau gyrfa hirdymor trwy wasanaeth trefnu cyngor a recriwtio penodol i'r gweithlu.

Dim ond mewn ardaloedd penodol mae'r rhaglen hon ar gael; gweler y rhestr gyfeirio ar dudalen 25.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r tîm Gwell Swyddi, Gwell Dyfodol ar **01792 284450**, e-bostiwch **info@betterjobsbetterfutures.wales** neu ewch i **www.betterjobsbetterfutures.wales**



## Manteision dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

Un o brif fanteision dewis astudio yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog yw eich bod yn parhau â'ch sgiliau Cymraeg sy'n amhrisiadwy pan fyddwch chi'n chwilio am waith.

Efallai bod cymhellion ariannol ar gael i fyfyrwyr hefyd. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dyfarnu ysgoloriaethau i israddedigion ac ôl-raddedigion sy'n dewis astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rhai cyrsiau gradd hefyd yn cynnig bwrsariaethau arbennig i fyfyrwyr sy'n astudio yn Gymraeg. Gallwch gwblhau prentisiaethau yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog hefyd gyda hyblygrwydd sy'n addas i'r dysgwr unigol.

Am ragor o gyngor a gwybodaeth, ffoniwch Gyrfa Cymru AM DDIM ar **0800 028 4844** neu ewch i **www.gyrfacymru.com**, **www.cymraeg.llyw.cymru** neu **www.colegcymraeg.ac.uk**

## Rhestr Gyfeirio Lleoliadau'r Rhaglen

| | Academi Busnes Gogledd Cymru | Academi Deunyddiau a Gweithgynhyrchu (M2A) | ADTRAC* | Arweinyddiaeth ION | Cam Nesa* | Cymorth yn y Gwaith | Gwell Swyddi, Gwell Dyfodol | Journey 2 Work* | KESS 2 | METal 2 | Mynediad | OPUS | Pontydd i Waith* | Sgiliau ar gyfer Cyflogwyr a Gweithwyr | Sgiliau ar gyfer Diwydiant | Sgiliau Gwaith i Oedolion | TRAC 11-24 | Twf Busnesau 20Twenty | Workways+* | Y Gwasanaeth i Mewn i Waith | Ysbrydoli i Gyflawni | Ysbrydoli i Weithio* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abertawe | | ✔ | | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | | ✔ | ✔ | ✔ | | | | ✔ | | | | ✔ | | | |
| Blaenau Gwent | | ✔ | | ✔ | | | | | ✔ | ✔ | ✔ | | ✔ | | | ✔ | | | | | ✔ | ✔ |
| Bro Morgannwg | | | | | | | | | | | | | | | | | | ✔ | | | ✔ | ✔ |
| Caerdydd | | | | | | | | ✔ | | | | | | | | | | ✔ | | ✔ | ✔ | ✔ |
| Caerffili | | ✔ | | ✔ | | | | | ✔ | ✔ | ✔ | | ✔ | | | ✔ | | | | | ✔ | ✔ |
| Casnewydd | | | | | | | | ✔ | | | | | | | | | | ✔ | | | ✔ | ✔ |
| Castell-nedd Port Talbot | | ✔ | | ✔ | ✔ | ✔ | | | ✔ | ✔ | ✔ | | | | ✔ | | | | ✔ | | | |
| Ceredigion | | ✔ | | ✔ | ✔ | | | | ✔ | ✔ | | | | | ✔ | | | | ✔ | | | |
| Conwy | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | | ✔ | | | ✔ | ✔ | | ✔ | | ✔ | | | ✔ | | | | | |
| Gwynedd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | | ✔ | | | ✔ | ✔ | | ✔ | | ✔ | | | ✔ | | | | | |
| Merthyr Tudful | | ✔ | | ✔ | | | | | ✔ | ✔ | ✔ | | ✔ | | | ✔ | | | | | ✔ | ✔ |
| Pen-y-bont ar Ogwr | | ✔ | | ✔ | | ✔ | | | ✔ | ✔ | ✔ | | ✔ | | | | | | | | ✔ | ✔ |
| Powys | | | | | | | | | | | | | | | | | | ✔ | | | | |
| Rhondda Cynon Taf | | ✔ | | ✔ | | | | | ✔ | ✔ | ✔ | | | | | | | | | | ✔ | ✔ |
| Sir Benfro | | ✔ | | ✔ | ✔ | | | | ✔ | ✔ | | | | | ✔ | | | | ✔ | | | |
| Sir Ddinbych | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | | ✔ | | | ✔ | ✔ | | ✔ | | ✔ | | | ✔ | | | | | |
| Sir Fynwy | | | | | | | | ✔ | | | | | | | | | | ✔ | | | ✔ | ✔ |
| Sir Gaerfyrddin | | ✔ | | ✔ | ✔ | | | | ✔ | ✔ | ✔ | | | | ✔ | | | | ✔ | | | |
| Sir y Fflint | ✔ | | ✔ | | | | | | | | | | | ✔ | | | ✔ | ✔ | | | | |
| Torfaen | | ✔ | | ✔ | | | | | ✔ | ✔ | ✔ | | ✔ | | | ✔ | | | | | ✔ | ✔ |
| Wrecsam | ✔ | | ✔ | | | | | | | | | | | ✔ | | | ✔ | ✔ | | | | |
| Ynys Môn | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | | ✔ | | | ✔ | ✔ | | ✔ | | ✔ | | | ✔ | | | | | |

*Ac eithrio'r rhai sy'n byw mewn Ardal Cymunedau yn Gyntaf.

**Dalier sylw:** mae rhaglenni sydd HEB eu cynnwys yn y siart uchod ar gael ledled Cymru.

# Ewch amdani!

Rydyn ni'n gwybod bod gennych chi'r hyder a'r brwdfrydedd i ddysgu sgiliau newydd – ac yn gobeithio ein bod ni wedi'ch helpu i weld sut y gallwch ei fforddio. Gall wneud byd o wahaniaeth i'ch bywyd a'ch gyrfa.

I gael rhagor o wybodaeth am gyllid neu gymorth ar gyfer dysgu, ffoniwch **0800 028 4844** AM DDIM neu ewch i **www.cymrungweithio.llyw.cymru**





Roedd y wybodaeth yn y canllaw hwn yn gywir ym mis Ebrill 2019.